# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, Dylan Rees, Margaret Roberts.<br><br>Aelod Lleyg: Jonathan Mendoza |
| **YN BRESENNOL:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, R. Llewelyn Jones, (Is-Gadeirydd), Peter Rogers (Cadeirydd), Mr Gwilym Bury a Mr Alan Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |

---

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, etholwyd Mr Dilwyn Evans, Aelod Lleyg yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 3. COFNODION 27[7AIN] MEHEFIN, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27[ain] Mehefin, 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o’r cofnodion -

- Mewn ymateb i gwestiwn am yr adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod wedi bod ar wyliau yn syth ar ôl y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor ym mis Mehefin ac nad oedd hi hyd yma wedi gallu anfon drafft cyntaf y Cylch Gorchwyl diwygiedig i'r ddau Aelod Lleyg i'w ystyried fel y cytunwyd. Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddent yn derbyn copi mewn da bryd ar gyfer cyfarfod mis Medi pan fydd y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Pwyllgor.

DRAFT

- Gan gyfeirio at Ddatganiad Cyfrifon 2017/18, cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi cael gwybodaeth am y modd y mae mae ffigurau allbwn y Gyllideb yn adran naratif y Cyfrifon yn cael eu cysoni â'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y Datganiadau Ariannol.

  Nododd y Pwyllgor, er bod y Datganiad Cyfrifon yn fod i ddarparu gwybodaeth glir i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor a phartïon eraill sydd â diddordeb am gyllid y Cyngor, yn enwedig cost y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, y modd y telir am wasanaethau ag asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, ni chaiff ei nodi mewn modd sy'n gwneud y wybodaeth yn hawdd i gael ati neu ei deall. Nododd y Pwyllgor ymhellach nad yw'n hawdd gweithio allan o'r Datganiadau Ariannol sut y mae'r Cyngor yn perfformio'n ariannol o ran rheoli ei fusnes o safbwynt elw a cholled a bod hynny'n cyfyngu ar ddefnyddioldeb y Datganiad fel offeryn i ddal y Cyngor i gyfrif am y modd y mae'n gwario arian cyhoeddus.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Datganiad o Gyfrifon hwn wedi cael ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol sy'n rhagnodi'r modd y dylid cyflwyno'r cyfrifon a'u bod yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Allanol ar y sail honno. Mae'r Datganiad fel dogfen wedi mynd yn fwy cymhleth oherwydd ei bod yn darparu ar gyfer gofynion CIPFA gyda hynny'n golygu ei bod yn llai dealladwy i'r person lleyg sy'n ei ddarllen. O ran atebolrwydd, mae'r modd y mae'r Cyngor yn trefnu ac yn rheoli ei fusnes ac yn defnyddio ei adnoddau yn cael ei fonitro'n agos, ond nid y cyfrifon yw'r prif gyfrwng ar gyfer rhannu gwybodaeth ond yn hytrach, yr adroddiadau monitro cyllideb a gyflwynir yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn sy'n dangos sut mae pob gwasanaeth unigol yn rheoli ei gyllideb. O ran y Datganiadau Ariannol, dywedodd y swyddog bod yr adroddiad naratif rhagarweiniol sy'n cyd-fynd â'r Datganiad yn cyfleu'r prif negeseuon am berfformiad ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r adroddiadau cyllidebol - gall y sylwebaeth naratif ganiatáu rhywfaint o ryddid i ddarparu dadansoddiad pellach. Dywedodd y Swyddog y bydd y Gwasanaeth yn adolygu cynnwys yr Adroddiad Naratif i ganfod a yw hyn yn bosibl.

**4. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg a oedd yn cynnwys diweddariad ar gynnydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, darparu sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn -

- Bod y ddau adroddiad Archwilio Mewnol wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod, y naill mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) yr aseswyd eu bod yn darparu Sicrwydd Rhesymol, a'r llall yn ymwneud ag Ardystio Archwiliad Grant Rhentu Doeth Cymru a gafodd radd Sicrwydd Sylweddol.
- Y bydd chwe adolygiad dilyn-i-fyny o adroddiadau gyda graddfa sicrwydd Cyfyngedig yn cael eu darparu dros y chwe mis nesaf fel yr amlinellir yn y tabl ym mharagraff 13 yr adroddiad. Mae tri o'r rhain a oedd wedi eu trefnu ar gyfer Gorffennaf, 2018 ar y gweill ar hyn o bryd.
- Oherwydd bod y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r cyfarfod hwn mor agos at ei gilydd, ni ddarparwyd diweddariad ar weithredu camau Rheoli ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor. Cyflwynir adroddiad manwl ar yr holl argymhellion a materion / risgiau gweddilliol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi.

- Er bod cynnydd o ran darparu’r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 wedi bod yn araf oherwydd bod angen cwblhau cynllun 2017/18 ac oherwydd bod dwy swydd wag ac absenoldeb salwch hirdymor yn y gwasanaeth, cwblhawyd un Gwiriad Cyfrif Terfynol ac ardystiad grant. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymwneud â gwaith arall fel y'i disgrifir ym mharagraffau 15 a 16 yr adroddiad.
- Y bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i gyfarfod Medi, 2018 cyn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ac ymatebodd fel a ganlyn -

- O ran yr Adolygiad Archwilio Mewnol o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r costau sy'n gysylltiedig ag asesiadau Meddyg. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 fod adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith yn gynharach yn y flwyddyn yn amlinellu’r goblygiadau ariannol sy’n gysylltiedig â sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau DoLS o ran sefydlu awdurdodiad DoLS i unigolion sy'n preswylio mewn lleoliadau gofal sydd heb y gallu i gydsynio i'w lleoliad er mwyn sicrhau bod y lleoliad er eu lles gorau. Rhaid cynnal asesiadau cyn rhoi awdurdodiad gan gynnwys asesiad meddygol y mae'n rhaid ei gynnal bob blwyddyn ac mae costau ynghlwm wrth hynny. Mae yna risg o ymgyfreithiad hefyd os nad yw asesiadau DoLS yn cael eu cynnal. Gan fod gan yr Awdurdod nifer sylweddol o unigolion yn ei gartrefi gofal a nyrsio ei hun yn ogystal â chartrefi gofal a nyrsio annibynnol sydd angen asesiad ar gyfer awdurdodiad DoLS, mae'r gost gyffredinol yn uchel. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfraniad ariannol i’r pwrpas hwn fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw ond roedd y swm yn annigonol.

- O ran dilyn i fyny yr adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol, nododd y Pwyllgor nad oes unrhyw ddiweddariad ar gael i’r cyfarfod hwn er bod 2 o risgiau/materion trychinebus a 26 o risgiau / materion mawr wedi'u nodi fel rhan o'r adolygiadau gwreiddiol o'r chwe maes y mae archwiliaid dilyn-i-fyny wedi eu rhaglennu ar eu cyfer. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod yr amserlen adrodd yn briodol o ystyried y risgiau / materion sy'n codi.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod yn fodlon gyda'r amserlenni am y rhesymau canlynol -

  - Roedd yr un risg / mater Catastroffig mewn perthynas ag adolygiad o Orchmynion Llys Gofal Plant dan y PLO yn cynnwys cynnal ymweliadau gofal yn unol â'r Cynllun Gofal. Nid oedd yr ymweliadau, er eu bod yn cael eu cynnal, o reidrwydd yn cael eu cofnodi. Gan fod nifer y Gorchmynion Llys Gofal Plant yn isel, nid yw'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi gallu sefydlu a yw'r ymweliadau newydd yn cael eu cofnodi ar y system gan nad oedd unrhyw ofyniad i'r ymweliadau hyn gael eu cynnal ac felly nid oes unrhyw beth i'r adain Archwilio Mewnol ei wirio a dyna’r rheswm pam mai Gorffennaf, 2018 yw’r dyddiad ar gyfer dilyn-i-fyny.
  - Er bod 19 o risgiau / materion wedi cael eu cofnodi fel rhai sy’n parhau i fod angen sylw yn erbyn yr Adolygiad o Ddyledwyr Amrywiol a oedd yn ddarn sylweddol o waith, mae’r Gwasanaeth wedi bod yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol trwy'r system monitro argymhellion electronig, felly mae’n cadw mewn cyswllt drwy gydol y broses.
  - Roedd yr un risg / mater trychinebus a oedd yn deillio o'r adolygiad o'r Fframwaith Caffael Corfforaethol yn ymwneud â diffyg Cofrestr Contractau a oedd yn golygu nad

DRAFT

oes modd i’r gwasanaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd bod y contractau sydd gan y Cyngor yn cydymffurfio â materion diogelu a diogelwch neu eu bod yn rhoi gwerth am arian. Mae darn cyfochrog o waith mewn perthynas â sicrhau bod contractau yn cydymffurfio â GDPR yn cael ei wneud gan olygu bod gwasanaethau'n adolygu contractau o ddau safbwynt. Felly, mae'r dyddiad ar gyfer yr ail archwiliad dilyn-i-fyny sef mis Gorffennaf yn rhesymol o ystyried faint o waith sy'n gysylltiedig.

- O ran y Cynllun Gweithredu Mewnol ar gyfer 2018/19, nododd y Pwyllgor mai dim ond 5 diwrnod sy'n cael eu dyrannu yn y cynllun diwygiedig i'r adolygiad mewn perthynas â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 er ei fod yn cael ei gydnabod bod hon yn ddeddfwriaeth proffil uchel sydd yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod hyn yn ddigonol a gofynnodd am eglurhad hefyd ynghylch a yw'r Cyngor yn agored i gael eu geryddu os nad yw’r ffordd y mae'n gweithredu'r Ddeddf yn cael yr effeithiau a ddeisyfir.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd yr adolygiad y mae’r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn bwriadu ei gynnal yn rhoi trosolwg strategol i ganfod pa drefniadau llywodraethu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i ddechrau. Mae'r disgwyliadau o ran y modd y bydd awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn cyflawni gofynion y Ddeddf yn realistig ac fe gydnabyddir y bydd angen amser arnyn nhw i wneud y newidiadau a ddaw yn sgil y Ddeddf. Fodd bynnag, yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill, disgwylir i'r Awdurdod ddangos ei fod yn ymateb i'r Ddeddf. Dywedodd y Swyddog y bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal adolygiad o’r modd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i'r Ddeddf ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o weithredu.

  Ychwanegodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal trosolwg strategol o ran gofynion Rhan 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sef darn arall o ddeddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda Rhan 9 yn ymwneud yn benodol â gweithio mewn partneriaeth a gweithredu trefniadau ariannu cyfun.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol hefyd wedi sefydlu Comisiynydd statudol ar gyfer Cenedlaethau’r Dyfodol yng Nghymru a fydd, gyda’i thîm, yn gyfrifol am fonitro i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol yn cwrdd â'r amcanion llesiant y maent wedi'u nodi fel rhan o’u hymateb i'r Ddeddf. Dywedodd y Swyddog, bod y Ddeddf, yn hytrach na bod yn rhagnodol, yn ymwneud â newid diwylliant a'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu sy’n golygu ei bod yn angenrheidiol iddo fedru dangos bod y broses o wneud penderfyniadau yn ystyried effaith y penderfyniadau hynny ar genedlaethau'r dyfodol. Mewn perthynas â Rhan 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, dywedodd y Swyddog bod angen dealltwriaeth gyffredin a rennir o drefniadau comisiynu hefyd er mwyn i drefniadau ariannu cyfun fod yn effeithiol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor ynghylch absenoldeb dyddiadau adrodd ar targedau ar gyfer y rhan fwyaf o'r adolygiadau a gynlluniwyd, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y Cynllun Gweithredol yn gynllun deinamig ac yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod amgylchiadau'n newid ac y bydd natur a lefel y risgiau cysylltiedig yn newid hefyd sy’n golygu ei bod yn anymarferol ac yn wrthgynhyrchiol i gynllunio ymlaen yn rhy bell. Mae angen i'r Cynllun Gweithredol hefyd fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg.

DRAFT

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd a'i berfformiad a'i effeithiolrwydd o ran gyrru gwelliant.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim**

## 5. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2017/18

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar yr Adolygiad o Weithgareddau Rheoli Trysorlys 2017/18 fel y gall y Pwyllgor ei ystyried a'i graffu unol â rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Rheoli Trysorlys am 2016/17.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod yr adolygiad yn crynhoi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant cyfalaf y Cyngor, ei weithgareddau benthyca a'i fuddsoddiadau yn ystod 2017/18. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y perfformiodd y Cyngor yn erbyn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18. Cyfeiriodd y Swyddog at y prif bwyntiau i'w hystyried fel a ganlyn -

- Gwariant Cyfalaf a Chyllido - o gyllideb gychwynnol o £ 53m, cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2017/18 oedd £ 29m gyda'r tanwariant i'w briodoli yn bennaf i'r llithriad ar brosiectau mawr a ariennir gan grantiau. Mae'r tabl ym mharagraff 2.2 yr adroddiad yn dangos bod £ 7 miliwn o wariant cyfalaf yn cael ei ariannu trwy fenthyca. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol tymor hir (sef y rhai a geir gan gyrff allanol megis y Llywodraeth, neu drwy'r PWLB neu'r marchnadoedd arian) yn ystod y flwyddyn ond benthycwyd yn fewnol, gyda balansau arian y Cyngor yn cyllido hyn yn y tymor byr er mwyn lleihau taliadau llog. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
- Yr enw a roddir ar angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o ddyledion y Cyngor. Mae'r CFR yn deillio o weithgarwch cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli'r gwariant cyfalaf yn 2017/18 a ariannwyd drwy fenthyca a gwariant cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a ariannwyd drwy fenthyca ond sydd heb ei dalu eto o refeniw neu adnoddau eraill.
- Mae'r tabl ym mharagraff 3.3.4 yr adroddiad yn dangos bod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn, sef un o'r dangosyddion darbodus allweddol (h.y. dangosyddion sy'n gosod terfynau ar weithgarwch rheoli trysorlys) yn £ 95m ar gyfer Cronfa'r Cyngor a £ 41 miliwn ar gyfer y Tai Cyfrif Refeniw sy'n gwneud cyfanswm o £ 136m. O'i gymharu â'r sefyllfa fenthyca gros ar 31 Mawrth, 2018 a oedd yn £ 117m, mae'n dangos bod £ 19 miliwn o falansau'r Cyngor wedi cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. O dan yr amgylchiadau hyn, disgwylir y bydd angen tynnu benthyciadau allan i ail-lenwi'r balansau yn y tymor hir.
- Mae Strategaeth a Pholisi Rheoli'r Trysorlys yn gosod trothwy ar y CFR a elwir yn gyfyngiad awdurdodedig. Unwaithy bydd y trothwy hwn wedi'i osod – roedd y trothwy ar gyfer 2017/18 yn £ 169m, nid oes gan y Cyngor y pŵer i fenthyca uwchben y lefel hon. Mae'r tabl yn 3.5.3 o'r adroddiad yn dangos bod y Cyngor wedi cadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyca gros (£ 117m) yn ogystal â'r ffin weithredol sy'n dynodi sefyllfa disgwyliedig y Cyngor o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai'n is neu'n uwch na'r trothwy; mae hyn yn dderbyniol os nad yw'r trothwy awdurdodedig yn cael ei dorri.
- Caiff y CRF a rhagamcenir ar gyfer 2018/19 a 2019/20 ei ddangos yn nhabl 3.4.2 yr adroddiad yn seiliedig ar y rhaglen gyfalaf wirioneddol ar gyfer 2018/19 a'r amcangyfrif o

DRAFT

ofynion cyllido cyfalaf ar gyfer 2019/20. Wrth i'r CFR gynyddu, bydd y trothwy awdurdodedig a’r ffin weithredol yn codi’n unol â hynny.

- Nodir ffigyrau benthyca a buddsoddi’r Cyngor ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 a 2017/18 yn nhabl 4.1 yr adroddiad. Mae sefyllfa dyledion y Cyngor, sef £ 117.029m yn debyg i sefyllfa’r flwyddyn flaenorol (£ 117.110m). Mae gan y Cyngor £ 5.993m wedi'i fuddsoddi mewn cyfrifon adneuo di-rybudd sy’n talu llog ar gyfradd sy’n agos at y gyfradd sylfaenol gyfredol. Gwnaed yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- Ni chafodd unrhyw ddyledion eu hail-drefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth cyfartalog o 1% rhwng cyfraddau benthyca newydd PWLB a chyfraddau ad-dalu dyledion yn gynamserol yn golygu y byddai’n anhyfyw i’w hail-drefnu.
- Y Gyfradd Banc ar ddechrau'r flwyddyn ariannol oedd 0.25%; fodd bynnag, cynyddodd hyn i 0.5% ar 2 Tachwedd, 2017. Roedd hynny’n golygu fod cyfraddau llog sefydliadau gwrth-barti ar y cyfrifon nodweddiadol yr oedd modd galw arnynt yn amrywio o 0.10% i 0.40%.
- Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cadwyd yr hawl hefyd i fuddsoddi am gyfnodau hirach. Disgwyliwyd y byddai balansau arian parod hyd at £ 26m yn amrywio rhwng £ 5m a £ 26m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.055% am £ 15k ar ôl addasu ar gyfer y cyfraddau uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y digwyddodd pethau, cafwyd dychweliad o £ 31.2k (0.12%) ar y balansau cyfartalog o £14.4m.
- Yr unig fenthyciad a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd un am £ 5m o Gronfa Bensiwn Tyne a Wear ar gyfradd llog o 0.33% am gyfnod dros dro o 3 mis i helpu gyda rheoli llif arian. Pan aeddfedodd y benthyciad ym mis Ionawr, 2018, cafodd ei gario drosodd am 3 mis pellach ar gyfradd llog o 0.50%. Pan aeddfedodd wedyn ym Ebrill, 2018 pan ddechreuodd y Cyngor dderbyn incwm o'r RSG, y Dreth Gyngor ac ati, roedd balansau arian parod y Cyngor wedi cynyddu gan olygu nad oedd angen y benthyciad mwyach ac fe dalwyd y ddyled yn ôl.
- Roedd y flwyddyn gyfan yn weddol sefydlog gyda gwariant cyfalaf yn llai na'r disgwyl ac mae'r Cyngor yn ariannu hyn trwy ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn ei hun. Mae hyn yn barhad o'r strategaeth a weithredwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o fewnoli benthyciadau lle mae modd gwneud hynny er mwyn lleihau costau benthyca. Fodd bynnag, os bydd cynnydd pellach yn y cyfraddau llog, bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i amrywio'r strategaeth trwy ddechrau benthyca ac, ar yr un pryd, fuddsoddi balansau arian y Cyngor ystyriaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac ymatebodd fel a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor fod yna gyfyngiadau ar allu’r Cyngor i fenthyca gyda’r CFR yn sicrhau na fedrir benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Nododd y Pwyllgor hefyd y bydd pwynt yn cael ei gyrraedd pan na fydd yn briodol mwyach caniatáu i falansau arian parod leihau ymhellach oherwydd yr angen i gynnal cyfalaf gweithredol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r sefyllfa ar hyn o bryd.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod y sefyllfa o ran y cyfalaf gweithredol yn cael ei adolygu bob dydd er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian i gwrdd â'i gostau parhaus gyda'r lefel yn cael ei gosod ar swm sy'n cyfateb i'r lefel a ffefrir ar gyfer balansau’r Gronfa Gyffredinol sydd oddeutu £ 6 miliwn, sef y lefel a aseswyd gan y Swyddog Adran 151 fel yr un ddigonol.

DRAFT

- Nododd y Pwyllgor mai'r costau misol mwyaf i'r Cyngor yw cyflogau staff. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r ffigwr misol ar gyfer cyflogau yn fwy neu'n llai na £ 6m.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y ffigwr oddeutu £ 6 miliwn gan gynnwys YG a chostau pensiwn.

- Nododd y Pwyllgor fod Mantolen y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn dangos bod balansau arian parod y Cyngor wedi gostwng o £ 14.940m ar 31 Mawrth, 2017 i £ 7.789m ar 31 Mawrth, 2018. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y Cyngor ddigon o arian ar gael petai pwysau annisgwyl arno.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y sefyllfa ar 31 Mawrth, 2018, yn ei farn ef, yn cynrychioli lleiafswm yr arian yr oedd ei angen a bod ystyriaeth wedi cael ei roddi bryd hynny i fenthyca. Fodd bynnag, gan fod y flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill ar fin dechrau ac y deuai incwm newydd bryd hynny ar ffurf rhan-daliad cyntaf y taliadau RSG a'r Dreth Gyngor, gyda hynny'n rhoi hwb i sefyllfa llif arian y Cyngor, penderfynwyd peidio â benthyca.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu -**

- **Yn nodi y bydd y ffigurau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn rhai dros dro nes i'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 gael ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel y bo'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad.**
- **Yn nodi'r dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 a amlinellir yn yr adroddiad.**
- **Yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18 ac yn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim**

## 6. BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer ei hadolygu ac ar gyfer sylwadau.

**Penderfynwyd derbyn y Blaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd heb unrhyw newidiadau.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Dim**

**Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)**
**Cadeirydd**

DRAFT